**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/VG/3156/19

Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Tachwedd 2019

Annwyl Dai,

**Gwasanaethau Awtistiaeth yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref, yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Hydref i roi'r newyddion diweddaraf am ddatblygiadau mewn gwasanaethau awtistiaeth. Yn y cyfarfod, cytunais y byddwn yn darparu mwy o wybodaeth am ddau faes, fel yr amlinellir yn eich llythyr. Mae'r wybodaeth isod:

Cytunais i ddarparu manylion am y gwaith ymgysylltu sy'n cael ei wneud fel rhan o'r ymgynghoriad a fydd yn llywio'r Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth.

Yn y sesiwn a'r papur tystiolaeth, rhoddais enghreifftiau o'r gwaith ymgysylltu sydd wedi'i wneud. Roedd hyn yn cynnwys y grwpiau technegol rhanddeiliaid, mynd i ddigwyddiadau megis ADFest ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, cyfarfodydd â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chynrychiolwyr o sawl un o'r Colegau Brenhinol. Rydym wedi bod yn gweithio hefyd gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd i wrando ar safbwyntiau grwpiau rhanddeiliaid lleol. Er enghraifft, yn ddiweddar cyfarfu fy swyddogion â grŵp o oedolion awtistig ym Mhowys i drafod eu safbwyntiau a'u profiadau i helpu i lywio datblygiad y Cod. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag oedolion awtistig ar draws rhanbarthau.

Mae "pecyn cymorth" ar gyfer ymgysylltu â phobl awtistig a'u teuluoedd/gofalwyr wedi'i ddatblygu a'i anfon at bob arweinydd Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a phob arweinydd Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig awdurdodau lleol i alluogi sgwrs ac adborth ar ddatblygiad y Cod.

Amgaeaf gopi o ddogfen sy'n darparu gwybodaeth am y cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yma a chynlluniau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae hon yn ddogfen waith, a bydd yn datblygu ymhellach wrth i gyfleoedd ymgysylltu eraill ddod i'r amlwg yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi cyhoeddi strategaeth ymgysylltu a chyfranogi, sydd i'w gweld o dan y ddolen ganlynol:
https://www.asdinfowales.co.uk/resource/Engagement-and-Participation-Strategy-march-19_final_cym_2.pdf

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda gwasanaethau gofal sylfaenol ar y gofrestr meddygon teulu. Cytunais i ddarparu diweddariad ar y sefyllfa o ran cyhoeddi'r data ar amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol plant.

Ein bwriad oedd cychwyn cyhoeddi data Niwroddatblygiadol Plant a Phobl Ifanc yn ffurfiol ym mis Ebrill 2019. Fel ystadegau swyddogol, maent yn amodol ar y data yn cyflawni safonau ansawdd angenrheidiol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Dylai Ystadegau Swyddogol fod yn addas i'r diben ac yn gadarn. Yn yr achos hwn, er ein bod wedi gweithio gyda byrddau iechyd yn ystod y cynllun peilot, ni chawsom y sicrwydd digonol bod y data yn addas i'w gyhoeddi.

Nododd yr adolygiad o'r data gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) feysydd o anghydraddoldeb nad ydynt wedi'u datrys hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru a NWIS yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddatrys y materion hyn. Yn y cyfamser, mae byrddau iechyd yn parhau i grynhoi ac adrodd y data hwn fel gwybodaeth reoli fel rhan o fframwaith y GIG, a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno i wella ansawdd a chysondeb.

Rydym yn gweithio gyda Byrddau Ieachyd Lleol i cyflawni data sydd yn cyson ac o ansawdd da. Ar ol i'r data cael ei cytuno, bydd data sydd o ansawdd dda ac yn y safon cryfach yn cael eu cyhoeddi drwy modd arferol y byrddau. Y prif ffocws yw dod a data byrddau iechyd i safon gydnabyddedig er mwyn cyflawni data cenedlaethol.

Byddwch yn ymwybodol fy mod i eisoes wedi darparu'r data rheoli o Ebrill 2018 - Ebrill 2019 i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ei waith dilynol ar ei adroddiad *Cadernid Meddwl*:
http://www.senedd.assembly.wales/documents/s92916/Letter%20from%20Minister%20for%20Health%20and%20Social%20Services%20following%20the%20evidence%20session%20on%2020%20June%202019.pdf

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# COD YMARFER AR GYFER GWASANAETHAU AWTISTIAETH – YMGYSYLLTU

Dyma ddadansoddiad o'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd ac a gynlluniwyd wrth ddatblygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth, a chyrraedd y gweithgareddau hynny.

**Mis:** Mehefin 2019

| Ymgysylltu | Dyddiad | Gweithgarwch yn y digwyddiad/cyfarfod | Cyrraedd |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod â Pobl yn Gyntaf Cymru – Prif Weithredwr | 4 Mehefin 2019 | Diweddariad ar ddatblygiadau – y Cod, grwpiau technegol a chynllun grantiau'r trydydd sector. | Prif weithredwr – partner trydydd sector allweddol |
| Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol Niwroddatblygiadol (ND) | 5 Mehefin 2019 | Diweddariad ar y Cod Ymarfer | Amrywiaeth o randdeiliaid niwroddatblygiadol – gweithwyr proffesiynol, y trydydd sector a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS). |
| Cysylltiadau ag Addysg a'r cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 10 Awst 2019 | Trafod y Cod Ymarfer a chroesgyfeirio â'r Cod ADY. | Gwaith trawsadrannol gydag addysg yn Llywodraeth Cymru. |

**Mis:** Gorffennaf 2019

| Ymgysylltu | Dyddiad | Gweithgarwch yn y digwyddiad/cyfarfod | Cyrraedd |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod â chynrychiolwyr y colegau Brenhinol. | 9 Gorffennaf 2019 | Trafod yr ymgynghoriad ar yr hyn i'w gynnwys yn y cod, a | Cynrychiolwyr o'r Colegau Brenhinol a Chonffederasiwn GIG Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | chyfarfodydd y grwpiau technegol. | |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: Asesiad a Diagnosis | 11 Gorffennaf 2019 | Adborth ar yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y cod.<br>Cyfle i rannu safbwyntiau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr adran asesiad a diagnosis yn y cod. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Pobl awtistig a'u teuluoedd;<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Therapyddion Galwedigaethol |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: Cael Gafael ar Ofal a Chymorth | 16 Gorffennaf 2019 | Adborth ar yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y cod.<br>Cyfle i rannu safbwyntiau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr adran cael gafael ar ofal a chymorth yn y cod. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Pobl awtistig a'u teuluoedd;<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Therapyddion Galwedigaethol |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant | 17 Gorffennaf 2019 | Adborth ar yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y cod.<br>Cyfle i rannu safbwyntiau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr adran asesiad a diagnosis yn y cod. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Pobl awtistig a'u teuluoedd;<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Therapyddion Galwedigaethol |
| Cyfarfod ag Arweinwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | 18 Gorffennaf 2019 | Diweddariad ar y Cod Ymarfer | Cyfarfod â holl arweinwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (NAT). |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: Cynllunio, Monitro ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 22 Gorffennaf 2019 | Adborth ar yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y cod.<br>Cyfle i rannu safbwyntiau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Pobl awtistig a'u teuluoedd;<br>• Y Trydydd Sector; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adran asesiad a diagnosis yn y cod. | • Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Therapyddion Galwedigaethol |
| Cyfarfod â chynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Powys | 24 Gorffennaf 2019 | Trafod darpariaeth gwasanaethau awtistiaeth a diweddariad ar y Cod | Bwrdd Iechyd Powys – goblygiad o ran darparu gwasanaethau i bobl awtistig sy'n byw yn rhanbarth Powys |
| Diwrnod datblygu'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol | 31 Gorffennaf 2019 | Cynllunio gwaith i'r dyfodol | Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a thîm Awtistiaeth Llywodraeth Cymru. Cynllunio gwasanaethau awtistiaeth i'r dyfodol ledled Cymru. |

**Mis:** Awst 2019

| **Digwyddiad** | **Dyddiad** | **Gweithgarwch yn y Digwyddiad** | **Cyrraedd** |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth | 5 Awst 2019 | Trafod Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a chysylltiadau â'r Cod Ymarfer | Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cysylltiadau ag Addysg a'r cod ADY | 6 Awst 2019 | Trafod y Cod Ymarfer a chroesgyfeirio â'r Cod ADY. | Gwaith trawsadrannol yn Llywodraeth Cymru. |
| Cyfarfod â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol | 7 Awst 2019 | Diweddariad ar y cynllun cytunedig | Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. |
| Cyfarfod – Datblygu'r Gweithlu Awtistiaeth/ND | 15 Awst 2019 | Trafod goblygiadau'r Cod Ymarfer a Strategaeth ddrafft y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r gweithlu. | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) |
| Gofal Sylfaenol a'r Cod Ymarfer | 28 Awst 2019 | Trafod y Cod a'r camau cyntaf o ran ymgysylltu â chyfarwyddwyr y bwrdd iechyd ar gyfer gofal sylfaenol. | Gofal Sylfaenol a Chymunedol Llywodraeth Cymru. |
| Cyfarfod ag adran Gyfreithiol Llywodraeth Cymru | 28 Awst 2019 | Diweddariad ar y Cod – goblygiadau cyfreithiol. | Llywodraeth Cymru – y tîm Awtistiaeth a'r adran Gyfreithiol. |
| Cyfarfod ag AaGIC | 29 Awst 2019 | Cyfarfod i drafod datblygiad y Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth a mewnbwn a chysylltiadau ag AaGIC. | HEIW |

**Mis:** Medi 2019

| **Digwyddiad** | **Dyddiad** | **Gweithgarwch yn y Digwyddiad** | **Cyrraedd** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Addysg | 10 Medi 2019 | Trafod atgyfeiriadau Awtistiaeth o ysgolion | Llywodraeth Cymru - Addysg |
| Cymuned Ymarfer | 11 Medi 2019 | Rhannu cynnydd o ran datblygiad y Cod Ymarfer. | Clinigwyr ar draws y Gwasanaeth Awtistiaeth. |
| Cyfarfod â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a Grwpiau Agored i Niwed | 13 Medi 2019 | Trafod y capasiti a'r galw am gymorth a diagnosis awtistiaeth. | Llywodraeth Cymru – Iechyd, goblygiadau i'r Cod |
| Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol ND | 18 Medi 2019 | Diweddariad ar y Cod Ymarfer | Amrywiaeth o Randdeiliaid ND – gweithwyr proffesiynol, y trydydd sector a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. |
| Cyfarfod Cyflogaeth a Sgiliau. | 19 Medi 2019 | Trafod cyflogaeth a hyfforddiant. | Llywodraeth Cymru – Cyflogaeth a Sgiliau. |
| Cyfranogiad ac Ymgysylltu (Powys - Gogledd) | 19 Medi 2019 | Profi'r pecyn cymorth a ddatblygwyd i ymgysylltu â phobl ag awtistiaeth. | Pobl awtistig |
| Lansio'r Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith | 24 Medi 2019 | Lansio: *Autism: A Guide for Work-Based Training Providers* a *Autism: A Guide for Work-Based Learners and Providers*. | Amrywiaeth o randdeiliaid – addysg, cyflogaeth a phobl awtistig. |
| Cyfarfod ag Arweinwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | 25 Medi 2019 | Diweddariad ar y Cod Ymarfer | Cyfarfod â holl arweinwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Integredig a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. |
| Cyfarfod â Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru (NAS) | 23 Medi 2019 | Cyfarfod i drafod cynnydd gyda'r cod ymarfer. | Mae NAS yn bartner a chynrychiolydd rhanddeiliaid allweddol |
| Y Cod Ymarfer Awtistiaeth a'r gweithlu awdurdod lleol | 26 Medi 2019 | Trafod goblygiadau'r Cod Ymarfer a Strategaeth ddrafft y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r gweithlu. | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Cyfarfod â Grŵp Cynghori ar Weithredu Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig | 30 Medi 2019 | Diweddariad ers y cyfarfod blaenorol ym mis Chwefror 2019. Cyfle i ddiweddaru ar ddatblygiad y Cod Ymarfer – yn dilyn ymgynghoriad ar gynigion a chylch cyntaf y grwpiau technegol ym mis Gorffennaf. Mae'r cyfarfod yn gyfle hefyd i rannu'r camau nesaf a chynlluniau ar gyfer y grwpiau ym mis Tachwedd. | Amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, y Trydydd Sector, NAS, pobl awtistig a rhieni a gofalwyr. |

**Mis:** Hydref 2019

| **Digwyddiad** | **Dyddiad** | **Gweithgarwch yn y Digwyddiad** | **Cyrraedd** |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol | 2 Hydref 2019 | Diweddariad ar gynllun gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol | Llywodraeth Cymru a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol |
| Cyfarfod â Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) | 3 Hydref 2019 | Rhwydweithio / trafodaethau anffurfiol ar y Cod | Ymarferwyr ND, yr heddlu, pobl ifanc awtistig a'u |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gofalwyr ac Uned Gyflawni'r GIG. |
| Cyfarfod â holl Gyfarwyddwyr Byrddau Iechyd Gofal Sylfaenol a Chymunedol | 4 Hydref 2019 | Papur ar y Cod – a chodi ymwybyddiaeth cyfarwyddwyr byrddau iechyd o ofal sylfaenol a chymunedol. | Cyfarwyddwyr Byrddau Iechyd Gofal Sylfaenol a Chymunedol, y Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. |
| Pobl yn Gyntaf Cymru – Adfest<br>Gwesty'r Village<br>Caerdydd | 18 Hydref 2019 | Cyfle i gyflwyno araith fer yn y gynhadledd a bwrdd yn y brif ardal. | Pobl awtistig a'u teuluoedd / gofalwyr.<br>Sefydliadau eirioli'r trydydd sector. |
| Prifysgol Caerdydd | 28 Hydref 2019 | Trafod canlyniadau gwerthusiadau o ymchwil addysgu a chodi ymwybyddiaeth. | Ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: cyfarfod â chynrychiolwyr y Colegau Brenhinol. | 29 Hydref 2019 | Cyfarfod y Grŵp Technegol i rannu ymgynghoriad ar adborth cynigion ac i rannu strwythur drafft y cod a'r ddogfen ganllawiau i gael adborth. | Aelodau/cynrychiolwyr y Colegau Brenhinol canlynol:<br>• Seiciatryddion;<br>• Pediatreg ac Iechyd Plant;<br>• Therapyddion Galwedigaethol;<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Conffederasiwn GIG Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Polisi Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru | 30 Hydref 2019 | Gweithio ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru. | Llywodraeth Cymru – Cyflogaeth a Sgiliau. |

**Mis:** Tachwedd 2019

| **Digwyddiad** | **Dyddiad** | **Gweithgarwch yn y Digwyddiad** | **Cyrraedd** |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Abertawe – SAIL | 4 Tachwedd 2019 | Archwilio'r dadansoddiad data sydd ar gael mewn gofal sylfaenol. | Rhanddeiliaid – ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: Asesiad a Diagnosis | 5 Tachwedd 2019 | Rhannu drafft o'r adran asesiad a diagnosis yn y cod a chanllawiau cysylltiedig gyda rhanddeiliaid. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Therapyddion Galwedigaethol |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: Cael Gafael ar Ofal a Chymorth | 7 Tachwedd 2019 | Rhannu drafft o'r adran cael gafael ar ofal a chymorth yn y cod a chanllawiau cysylltiedig gyda rhanddeiliaid. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Therapyddion Galwedigaethol |
| Lleisiau Rhieni yng Nghymru | 11 Tachwedd 2019 | Cyfle i gyfarfod â rhieni a gofalwyr i drafod profiadau a safbwyntiau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Cod Ymarfer. | Rhieni a Gofalwyr |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant | 12 Tachwedd 2019 | Rhannu drafft o’r adran codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn y cod a chanllawiau cysylltiedig gyda rhanddeiliaid. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Therapyddion Galwedigaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer: Cynllunio, Monitro ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 14 Tachwedd 2019 | Rhannu drafft o'r adran cynllunio, monitro ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y cod a chanllawiau cysylltiedig gyda rhanddeiliaid. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Therapyddion Galwedigaethol |
| Penaethiaid Gofal Sylfaenol a chyfarwyddwyr meddygol cyswllt | 15 Tachwedd 2019 | Ymgysylltu i godi proffil awtistiaeth mewn byrddau iechyd | Bwrdd Iechyd / timau gofal iechyd sylfaenol |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer – Digwyddiad Gogledd Cymru (Gwesty St George, Llandudno) | 20 Tachwedd 2019 | Digwyddiad undydd i gwmpasu'r pedair pennod yn y cod ac i roi adborth ar yr ymgynghoriad a'r gwaith hyd yma. Cyfle i'r rhai sy'n bresennol wneud sylwadau ar unrhyw feysydd y mae angen i'r cod fynd i'r afael â nhw. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Pobl awtistig a'u teuluoedd;<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Therapyddion Galwedigaethol |
| Cynhadledd 1000 o Fywydau – Gwasanaeth Gwella | 25 Tachwedd 2019 | Rhwydweithio – codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth. | Gweithlu Iechyd Cymru |
| Grŵp Technegol y Cod Ymarfer – Digwyddiad Gorllewin Cymru (Canolfan Halliwell, Caerfyrddin) | 26 Tachwedd 2019 | Digwyddiad undydd i gwmpasu'r pedair pennod yn y cod ac i roi adborth ar yr ymgynghoriad a'r gwaith hyd yma. Cyfle i'r rhai sy'n bresennol wneud sylwadau ar unrhyw feysydd y mae angen i'r cod fynd i'r afael â nhw. | Rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:<br>• Pobl awtistig a'u teuluoedd;<br>• Y Trydydd Sector;<br>• Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig;<br>• Addysg;<br>• Awdurdod Lleol;<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Therapyddion Lleferydd ac Iaith;<br>• Therapyddion Galwedigaethol |
| Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol ND | 29 Tachwedd 2019 | Diweddariad ar y Cod Ymarfer | Amrywiaeth o randdeiliaid niwroddatblygiadol – gweithwyr proffesiynol, y trydydd sector a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. |

**Mis:** Rhagfyr 2019

| Digwyddiad | Dyddiad | Gweithgarwch yn y Digwyddiad | Cyrraedd |
|---|---|---|---|
| Cyfranogiad ac Ymgysylltu (Powys - Gogledd) | 4 Rhagfyr 2019 | I ddilyn y cyfarfod blaenorol ar 19 Medi 2019 i rannu adrannau drafft o'r Cod Ymarfer i gael adborth. | Pobl awtistig |
| Cyfarfod ag arweinwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig | 5 Rhagfyr 2019 | Diweddariad ar y Cod | Arweinwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig |
| Adolygiad o ganllaw gofalwyr / rhieni y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol | 12 Rhagfyr 2019 | Digwyddiad ymgysylltu i adolygu / diweddaru'r canllawiau presennol | Gofalwyr/rhieni plant/oedolion awtistig |

**Mis:** Ionawr 2020

| Digwyddiad | Dyddiad | Gweithgarwch yn y Digwyddiad | Cyrraedd |
|---|---|---|---|
| Grŵp Rhieni a Gofalwyr | 13 Ionawr 2020 | Cyfle i gyfarfod â rhieni a gofalwyr i drafod profiadau a safbwyntiau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Cod Ymarfer. | Rhieni a Gofalwyr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arweinwyr Gweithlu Awdurdodau Lleol | Dyddiad i'w gadarnhau | Ymgysylltu mewn perthynas â'r cod ac adolygiad o'r galw a chapasiti | Cynllunio'r gweithlu |
| Cymuned Ymarfer | 23 Ionawr 2020 | Rhannu cynnydd o ran datblygiad y Cod Ymarfer. | Clinigwyr ar draws y Gwasanaeth Awtistiaeth. |
| Grŵp gorchwyl a gorffen adolygu'r galw a chapasiti | Cyfarfod wedi'i gynllunio | Cyfarfod y grŵp gorchwyl a gorffen. | Rhanddeiliaid allweddol |

**Mis:** Chwefror 2020

| Digwyddiad | Dyddiad | Gweithgarwch yn y Digwyddiad | Cyrraedd |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod â'r Adran Gwaith a Phensiynau – Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth | 4 Chwefror 2020 | Trafod Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a chysylltiadau â'r Cod Ymarfer | Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. |
| Symposiwm Awtistiaeth / CAMHS | 25 Chwefror 2019 | Trafod y ddarpariaeth gwasanaethau i oedolion ifanc a'i ddarpariaeth yn y Cod | Ymarferwyr Awtistiaeth / CAMHS, Llywodraeth Cymru, y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. |

**Mis:** Mawrth 2020

| Digwyddiad | Dyddiad | Gweithgarwch yn y Digwyddiad | Cyrraedd |
|---|---|---|---|
| Cymuned Ymarfer | 12 Mawrth 2020 | Rhannu cynnydd o ran datblygiad y Cod Ymarfer. | Clinigwyr ar draws y Gwasanaeth Awtistiaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grŵp Cynghori ar Weithredu Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig | 23 Mawrth 2019 | Diweddariad a thrafodaeth ar y Cod | Gweithwyr proffesiynol a chynrychiolwyr sefydliadau a phobl awtistig a'u gofalwyr |

**Mis:** Ebrill 2020

| **Digwyddiad** | **Dyddiad** | **Gweithgarwch yn y Digwyddiad** | **Cyrraedd** |
|---|---|---|---|
| Cod Ymarfer – digwyddiadau ymgynghori | I'w gadarnhau | | |

**Mis:** Mai 2020

| **Digwyddiad** | **Dyddiad** | **Gweithgarwch yn y Digwyddiad** | **Cyrraedd** |
|---|---|---|---|
| Cod Ymarfer – digwyddiadau ymgynghori | I'w gadarnhau | | |

**Mis:** Mehefin 2020

| **Digwyddiad** | **Dyddiad** | **Gweithgarwch yn y Digwyddiad** | **Cyrraedd** |
|---|---|---|---|
| Cod Ymarfer – digwyddiadau ymgynghori | I'w gadarnhau | | |